Site Stakeholder Group

Summary of the key points from the Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting held on the 18 June 2018

1. The Chairman updated members on recent meetings he had attended. He also referred to the NDA National Stakeholder Summit event to be held at Berkeley College 10-11 July 2018.

2. Martin Moore presented the Magnox Site Closure Director's Report for Trawsfynydd

3. Jonathon Jenkin, Nuclear Decommissioning Authority gave an update of site activities on behalf of the NDA.

4. Richard Clarke, Environmental Agency gave a briefing on the joint Natural Resource Wales/Environment Agency report.

5. An update on recipients of the Magnox Socio-Economic Scheme was presented by Mair Jones.

Site Stakeholder Group

Trawsfynydd Site Stakeholder Group Meeting
Monday 18 June 2018 at 1300 hrs
Meeting to be held in the Conference Room
at Trawsfynydd Conference and Induction Centre

MINUTES

PRESENT

NAME	**ORGANISATION**
Cllr Keith O'Brien (Chair)	Trawsfynydd Community Council
Richard Clarke	Environment Agency
Jonathan Jenkin	Nuclear Decommissioning Authority
Joanna Wright	Bangor University
S Jones	Bangor University
Cllr David Meredydd Williams	Maentwrog Community Council
Cllr John Llewelyn Richards (Vice-Chair)	Talsarnau Community Council
Cllr Dafydd Watts	Llanfrothen Community Council
Cllr Robin R Jones	Penrhyndeudraeth Community Council
Sion Richards	Magnox, Traws Head of Radiological Protection
Prof Richard Taylor	Manchester University
Cllr Ioan Thomas	Gwynedd County Council
Martin Moore	Magnox, Traws Site Closure Director
Rory Trappe	Magnox, Traws TU Representative
Andrew McAteer	Magnox Maentwrog
Angharad Rayner	Magnox, Traws EHSS&Q Manager
Paul Richardson	Prospect – Magnox TU
Michelle Humphreys	Magnox Comms Regional Lead – Wales
Mair Jones	Magnox Socio-economic Scheme Lead
Iestyn Pritchard	NFU Cymru
Adelyn Ellis	Seren Ffestiniog Cyf.
Cllr. Linda Jones	Gwynedd County Council
T Jones	Local resident
Aled Williams	WAST
Idwal Williams	Trawsnewid
Nia Swann Bowden	Snowdonia Enterprise Zone, Gwynedd Council
Cllr Elfed P Roberts	Gwynedd County Council
Sydna Roberts	Cymen - minute taker
Gwynfor Owen	Cymen - translator

1. Apologies for absence

The Chair welcomed everyone to the meeting at 1.05 and noted the following apologies.

Sioned Lewis, Project Manager, Seren Ffestiniog Cyf

Richard Foxhall, Horizon
John McGough, ONR
Cllr Annwen Daniels, Gwynedd Council Representative
Paul Buckley, Magnox EHSS&Q Inspector
Jonathan Cawley, Snowdonia National Park Authority
Cllr Sioned Williams, Head of Economy and Community, Gwynedd Council
Gwen Pettifor , Gwynedd Meirionnydd Women's Institute
Julia Frost, Natural Resources Wales
John Idris Jones, Snowdonia Enterprise Zone
Cllr Gareth Thomas, Gwynedd County Council

2. Approve the Minutes of the meeting held on 4 December 2017

Minutes of the meeting held on 4 December 2017 were presented and accepted as a correct record.

3. Matters arising from the minutes of the meeting held on 4 December 2017

None raised

4. Chairman's Address – Keith O'Brien

The Chair gave an overview of his activities since the last meeting and drew particular attention to the following:-

a) Meeting of all SSG Chairs held on 24 February 2018 in London where particular reference was made to the positive work being undertaken at Trawsfynydd.
b) The expectancy that the Holliday Report will be finalised late summer early Autumn 2018.
c) Meeting held with Simon Boniface NDA Decommissioning Strategy Manager regarding continuous de-commissioning. He noted the importance of reminding all parties of the role of Welsh Government and the implications should there be a decision to identify 2 areas; one in England and one in Wales.
d) The Chair was unable to attend the BEIS workshop in Bangor but noted that JLR would provide members with a briefing.
e) Noted that this morning's site visit and tour by SSG members proved useful and informative. Members had been impressed with current progress and the general cleanliness on site. The Chair encouraged all to attend future visits.
f) NDA National Stakeholder Summit event to be held at Berkeley College – 10/11 July 2018

Finally the Chair referred to the retirement of Gareth Lloyd, Senior Planner with Snowdonia National Park Authority and thanked him for his support and wished him well in the future.

BSE workshop – JLR update

JLR reported on the BEIS workshop held in Bangor on 14 June 2018 which focused on the consultation on the regulation of nuclear sites in the final stages of decommissioning. He referred to the Nuclear Installations Act 1965 and its statutory requirements and the need for appropriate funding to meet those requirements. He noted that whilst the ONR will be the administrators the HSE and NRW will also be part of the process. JLR also referred to the BEIS consultation which will close on 3 July and SSG members were encouraged to access the website in order to complete.

The Chair thanked JLR for his briefing.

5. Site Closure Director's Report – Martin Moore

The Chair introduced Martin Moore, Trawsfynydd Site Closure Director to the meeting. Mr Moore guided members through his report previously circulated to members. He drew particular attention to the following:-

Safety Overview

a) Safety performance over the year was good overall, with TRIR/DACR rates remaining at zero and a reduction in the incidence of First Aid treatments.
b) Local safety priorities have been addressed through campaigns such as "hold the handrail", and having our own teams share their personal stories and reflections.
c) Focussing now on staff health and well-being, at work and beyond. AR has developed a video for a recent Safety Representatives Conference, explaining how staff care for each other and it was agreed to show SSG members this video at the next meeting.
d) Positive work being undertaken as regards protection of the Environment
e) Security performance continues to be of a high standard with revised arrangements established to increase resilience and support the cessation of operational shift working. This project was very well planned and executed, and has provided the basis for the remaining Magnox sites to follow.

Quality Assurance

AR reported that Trawsfynydd continues to trial the Magnox Quality Assurance Matrix for a second year. She noted that the document recovery project continues with a reduction of overdue documents from an average of 2,500 at any one time to below 500 to date and this downward trend continues.

A Site Assurance Review Audit conducted by the Head of Internal Audit on 11.6.18 has received a positive feedback with minor findings to be addressed.

Decommissioning Progress

MM noted excellent progress across the site with a number of impressive milestones achieved through the year, in summary:

a) Lockdown of both safestores above ground floor was completed after an extensive package of work to remove legacy waste and remove or make safe any radiological or asbestos hazard.
b) Completion of the Main Sludge Vault recovery, with the team managing a very difficult waste stream without incident or harm. The plant will now enter Post Operational Clean Out ahead of handover for de-planting works.
c) The North Fuel Element Debris (FED) Plant entered active commissioning and we have produced nine 3m3 intermediate level waste packages (ILW) of FED.
d) Completion of the Pond scabbling phase, and we are now focused on backing out of the ponds lanes, with all Ponds North Void baskets removed and safely exported into storage in the Magnox Debris Handling & Storage Facility.
e) Completion of the Reactor Building strengthening works without any significant incidents.

As regards the new Guidance on Requirements for Release of Nuclear Sites from Radioactive Substances Regulations, a constructive and productive working relationship with NDA, ONR, EA, and Snowdonia National Park has been established with positive feedback to date from all parties.

Workforce
The workforce numbers are expected to decrease in line with a planned reduction in work scope. MM provided members with a high level report on staffing statistics as follows:-

April 2017 -	445 staff (all staff including direct site License Company, agencies and others)
April 2018 -	326
June 2018 -	268

MM reiterated that there is a continued effort to strive for open dialogue between management and staff.

As part of supporting the Magnox Equality, Diversity and Inclusion (EDI) Programme all staff and agency workers have attended awareness workshops to help make EDI visible and understood in the workplace.

Mental Health First Aiders have been appointed and a number of Managers have received training to help in identifying stress, building resilience & healthy minds for themselves and their teams.

Succession planning continues to ensure a smooth transition in September 2019 when the Parent Body Organisation (PBO) Contract between Cavendish Fluor Partnership and the NDA is mutually terminated.

Environment and Radiological Safety
AR reported that during this last period the site has maintained discharges to the environment at very low levels, significantly below the annual permitted limits. Radiation protection remains within discharge limits.

Cllr M Williams enquired as to the date for demolition and who makes that decision. MM stated that work is planned to commence in 2022, but that specific details of work schedules will be determined once a demolition contractor is selected.agreed. He noted that discussions with all parties are ongoing to agree the detail and complete the agreement and to help understand what is required within the required Planning Application.

Cllr Richards remarked that the SSG had not received a draft Business Plan for a few years and commented that this was a useful document. He also stated that he had been informed that funds had been removed from the Trawsfynydd budget – he enquired as to the validity of this statement. MM confirmed that the funding from the NDA had been lower this year than in previous years but in line with the planned work on the site. He explained that cost effective activity within one site can result in release of funds to another, and sometimes priorities change and funding can be redirected. Likewise, if high priority work is identified in Trawsfynydd in the future, management can request additional funding to cover such costs.

Cllr Ioan Thomas wished to thank MM for the site visits earlier in the day and also for providing the staffing profile data.

6. Report by the Office for Nuclear Regulation – John McGough

There was no representative from ONR present; however, a written report covering the period 1.10.17 to 31.3.18 had been circulated with the papers.

7. Report by Natural Resources Wales – Julia Frost

There was no representative of NRW present, however, a joint written report, prepared by NRW and EA, was distributed to all SSG members and discussed at Item 10 below.

8. Report by the Nuclear Decommissioning Authority – Jonathan Jenkin

Mr Jonathon Jenkin was welcomed to the meeting and gave a brief overview of the NDA monthly update previously circulated to members. He referred specifically to the imminent NDA Stakeholder Summit to be held in Berkeley, a former nuclear site now housing the South Gloucester and Stroud College and Science Park, during 10-11 July 2018.

He reiterated that the decommissioning document will hopefully be presented to the July NDA Board meeting. If the document receives Board approval it will then be presented to Government before undergoing a full consultation process.

9. Magnox socio-economic scheme update – Mair Jones

Mair Jones gave a short presentation on the achievements of the socio-economic scheme. It was noted that in 2017/18, over £739k was committed to helping 143 organisations across the 12 Magnox sites. Over £140k (19%) of this was in the surrounding communities of Trawsfynydd site. Some of the groups that benefited from the Good Neighbour level funding were:
Blaenau Sovereigns – awarded £1000; Cylch Meithrin Bethel – awarded £315; Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch – awarded £418; Harlech Library – awarded £2000

One of the larger, transformational applications recently supported were Outdoor Partnership – awarded £30,000; Dyffryn Nantlle Community Hub – awarded £9,999; STEM Gogledd Project – awarded £201,000.

Also, Trawsfynydd Transition Phase 3 received £465,500 NDA direct funding towards the end of the financial year. This is a continuation of phase 2, which received £350,000 funding in 2011/12 creating two jobs – Enterprise Zone Manager and Enterprise Zone Officer implementing the Site Action Plan and further improvements to the Trawsfynydd Lake, such as improved access for paths and cyclists and signage and the tourism café which created five indirect jobs. Phase 3 is a much broader programme with the opportunity to secure major multimillion pound investments at both Trawsfynydd with the potential Small Modular Reactor (SMR) opportunity and the nearby Snowdonia Aerospace Centre in Llanbedr.

The 2018/19 funding portal is now open, further information and applications can be made on-line at https://magnoxsocioeconomic.com

The Chair wished to formally thank Mair Jones and Magnox Ltd for administrating and delivering this valuable funding to support local projects and encouraged members to promote the fund in their localities.

10. Environment Agency Report – Richard Clarke

Mr Richard Clarke was welcomed to the meeting and guided members through the joint NRW/EA report previously circulated to members. He drew particular attention to the following:-

a) Radioactive discharges – 1/4ly reports received all show that Trawsfynydd remains within the limits set in the radioactive substances permit.

b) Asset Management Themed Inspection was held by NRW on 5-6 May – feedback imminent

c) No Enforcement Activity was concluded since the last meeting

d) Formal GRR trail has been completed, but work continues with Trawsfynydd on the completion of formal submissions in conjunction with ONR,NDA as well as Snowdonia National Park

e) Warning letter issued July 2017 re misconsignment of pond scabbling waste. Good progress undertaken by the operator which will be formally recorded in the site inspection report.

f) Noted that a Trawsfynydd 'Habits' survey will be undertaken early in July – Sion Richards and Richard Clarke will lead on this within the local community.

g) Reiterated that, from the EA point of view, there is a lot of work to be done yet before a formal Planning Application can be completed. He assured members that there is a lot of positive dialogue ongoing between all agencies. He also stated that the usual timeline for consultations is between 6-8 weeks.

Mr Clarke was thanked for his presentation.

11. AOB

Menter Eryri, Cyngor Gwynedd
Nia Bowden wished to update members on the following:-

Trawsfynydd

- Efforts are continuing to lobby for continuous decommissioning.
- Site development – number of parties have visited the site and positive comments received as regards housing a smaller reactor
- Twf Application – a number of projects have been identified to be developed over the next 15 years

Llanbedr

- Funds identified to renew the site and buildings, upgrade equipment and improve site access – slow progress, however, European funding has been confirmed.

- Institution of Mechanical Engineering event to be held for children and young people.

Cllr M Williams referred to a recent incident whereby an airplane (- Floatplane) was seen on the lake. No one present was able to provide any detail or information regarding this incident and it was agreed that A.Mc from Maentwrog and JJ from the NDA investigate further and report back to the next meeting of this group.

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 3.10pm

12. Date and time of next meeting – Monday 3 December 2018

Crynodeb o'r prif bwyntiau o gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2018

1. Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf i'r aelodau am gyfarfodydd y bu ynddynt yn ddiweddar. Cyfeiriodd hefyd at Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr NDA a oedd i'w chynnal yng Ngholeg Berkeley 10-11 Gorffennaf 2018.

2. Cyflwynodd Martin Moore Adroddiad Cyfarwyddwr Cau Safle Magnox ar gyfer Trawsfynydd

3. Rhoddodd Jonathan Jenkin o'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) ddiweddariad ar weithgareddau ar y safle ar ran yr NDA.

4. Rhoddodd Richard Clarke, Asiantaeth yr Amgylchedd, wybodaeth am adroddiad ar y cyd Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd.

5. Rhoddwyd diweddariad gan Mair Jones ar y rhai sydd wedi derbyn arian gan Gynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox.

Site Stakeholder Group

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd
Dydd Llun 18 Mehefin 2018 am 1 o'r gloch y prynhawn
Cyfarfod i'w gynnal yn yr Ystafell Gynadledda
Yng Nghanolfan Gynadledda a Sefydlu Trawsfynydd

COFNODION

PRESENNOL

ENW	**SEFYDLIAD**
Y Cyng. Keith O'Brien (Cadeirydd)	Cyngor Cymuned Trawsfynydd
Richard Clarke	Asiantaeth yr Amgylchedd
Jonathan Jenkin	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA)
Joanna Wright	Prifysgol Bangor
S Jones	Prifysgol Bangor
Y Cyng. David Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Y Cyng. John Llewelyn Richards (Is-gadeirydd)	Cyngor Cymuned Talsarnau
Y Cyng. Dafydd Watts	Cyngor Cymuned Llanfrothen
Y Cyng. Robin R Jones	Cyngor Cymuned Phenrhyndeudraeth
Sion Richards	Magnox, Pennaeth Diogelwch Radiolegol Traws
Yr Athro Richard Taylor	Prifysgol Manceinion
Y Cyng. Ioan Thomas	Cyngor Gwynedd
Martin Moore	Magnox, Cyfarwyddwr Cau Safle Traws
Rory Trappe	Magnox, Cynrychiolydd TU Traws
Andrew McAteer	Magnox Maentwrog
Angharad Rayner	Magnox, Rheolwr EHSSQ&Q Traws
Paul Richardson	Prospect – Magnox TU
Michelle Humphreys	Arweinydd Rhanbarthol Magnox Comms – Cymru
Mair Jones	Arweinydd Cynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox
Iestyn Pritchard	NFU Cymru
Adelyn Ellis	Ffestiniog Seren Cyf.
Y Cyng. Linda Jones	Cyngor Gwynedd
T Jones	Preswylydd lleol
Aled Williams	WAST
Idwal Williams	Trawsnewid
Nia Swann Bowden	Ardal Fenter Eryri, Cyngor Gwynedd
Y Cyng. Elfed P Roberts	Cyngor Gwynedd
Sydna Roberts	Cofnodydd - Cymen
Gwynfor Owen	Cyfieithydd - Cymen

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 1.05 a nododd yr ymddiheuriadau canlynol.

Sioned Lewis, Rheolwr Prosiect, Seren Cyf Ffestiniog
Richard Foxhall, Horizon
John McGough, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
Y Cyng. Annwen Daniels, Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd
Paul Buckley, Magnox, Arolygydd EHSS&Q
Jonathan Cawley, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Y Cyng. Sioned Williams, Pennaeth Economi a'r Gymuned, Cyngor Gwynedd
Gwen Pettifor, Sefydliad y Merched Gwynedd Meirionnydd
Julia Frost, Cyfoeth Naturiol Cymru
John Idris Jones, Ardal Fenter Eryri
Y Cyng. Gareth Thomas, Cyngor Gwynedd

2. Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2017

Cafodd Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2017 eu cyflwyno a'u derbyn yn gofnod cywir.

3. Materion sy'n codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2017

Ni chodwyd yr un

4. Anerchiad y Cadeirydd – Keith O'Brien,

Rhoddodd y Cadeirydd drosolwg o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, a thynnodd sylw penodol at y canlynol: -

a) Cyfarfod o'r holl Gadeiryddion Grwpiau Rhanddeiliaid Safleoedd a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2018 yn Llundain lle y gwnaed cyfeiriad penodol at y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yn Nhrawsfynydd.
b) Mae disgwyl y bydd adroddiad Holliday yn cael ei gwblhau ddiwedd yr haf neu ddechrau'r Hydref 2018.
c) Cyfarfod a gynhaliwyd gyda Simon Boniface Rheolwr Strategaeth Datgomisiynu'r NDA ynghylch datgomisiynu parhaus. Nododd bwysigrwydd atgoffa'r holl bartïon am rôl Llywodraeth Cymru a'r goblygiadau os bydd penderfyniad i ddynodi 2 ardal, un yn Lloegr ac un yng Nghymru.
d) Ni allai'r Cadeirydd fynd i'r gweithdy BEIS ym Mangor ond nododd y byddai JLR yn briffio'r aelodau.
e) Nododd bod yr ymweliad safle a'r daith o gwmpas gan aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle fore heddiw wedi bod yn ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth. Roedd y cynnydd ar hyn o bryd a glendid cyffredinol y safle wedi gwneud argraff ar yr aelodau. Rhoddodd y Cadeirydd anogaeth i bawb fod yn bresennol ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol.
f) Digwyddiad Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr NDA i'w chynnal yng Ngholeg Berkeley – 10 /11 Gorffennaf 2018

Yn olaf, cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad Gareth Lloyd, Uwch Gynllunydd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; diolchodd iddo am ei gefnogaeth a dymunodd yn dda iddo yn y dyfodol.

Gweithdy BSE – diweddariad JLR

Rhoddodd JLR adroddiad ar y gweithdy BEIS a gynhaliwyd ym Mangor ar 14 Mehefin 2018 a oedd yn canolbwyntio ar yr ymgynghoriad ar reoleiddio safleoedd niwclear yng nghamau olaf y gwaith datgomisiynu. Cyfeiriodd at Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965 a'i gofynion statudol a'r angen am gyllid priodol i gwrdd â'r gofynion hynny. Nododd er mai'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) fydd y gweinyddwyr, bydd yr Arolygiaeth Iechyd a Diogelwch a Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rhan o'r

broses. Cyfeiriodd JLR hefyd at yr ymgynghoriad BEIS a fydd yn dod i ben ar 3 Gorffennaf ac anogodd aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle i fynd i'r wefan er mwyn ei gwblhau.

Diolchodd y Cadeirydd i JLR am friffio'r aelodau.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr Cau'r Safle – Martin Moore

Cyflwynodd y Cadeirydd Martin Moore, Cyfarwyddwr Cau Safle Trawsfynydd i'r cyfarfod. Arweiniodd Mr Moore yr aelodau drwy ei Adroddiad a ddosbarthwyd ymlaen llaw i'r aelodau. Tynnodd sylw penodol at y canlynol:-

Trosolwg o Ddiogelwch

a) Roedd y perfformiad o ran diogelwch dros y flwyddyn yn dda yn gyffredinol, gyda'r cyfraddau TRIR / DACR yn aros ar sero a gostyngiad yn nifer y triniaethau Cymorth Cyntaf a roddwyd.
b) Rhoddwyd sylw i flaenoriaethau diogelwch lleol drwy ymgyrchoedd fel "hold the handrail", a thrwy i'n timau ein hunain rannu eu myfyrdodau a'u straeon personol.
c) Yn canolbwyntio nawr ar iechyd a llesiant staff, yn y gwaith a thu hwnt. Mae AR wedi datblygu fideo ar gyfer Cynhadledd Cynrychiolwyr Diogelwch yn ddiweddar, yn egluro sut mae staff yn gofalu am ei gilydd a chytunwyd i ddangos y fideo hwn i aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle yn y cyfarfod nesaf.
d) Gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud yng nghyswllt diogelu'r Amgylchedd
e) Perfformiad o ran diogelwch yn parhau i fod o safon uchel a rhoddwyd trefniadau diwygiedig ar waith i gynyddu gwytnwch ac i gefnogi rhoi'r gorau i shifftiau gweithredol. Roedd y prosiect wedi'i gynllunio a'i weithredu'n dda iawn ac mae wedi darparu'r sail i weddill safleoedd Magnox ei dilyn.

Sicrwydd Ansawdd

Adroddodd AR bod Trawsfynydd yn parhau i dreialu Matrics Sicrhau Ansawdd Magnox am ail flwyddyn. Nododd bod y prosiect adfer dogfennau yn parhau gyda gostyngiad o ddogfennau hwyr o 2,500, ar gyfartaledd ar unrhyw adeg, i lai na 500, hyd yma, ac mae'r gostyngiad hwn yn parhau.

Mae Archwiliad Adolygu Sicrwydd y Safle a gafodd ei gynnal gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar 11.6.18 wedi derbyn adborth cadarnhaol gyda mân ganfyddiadau i fynd i'r afael â nhw.

Y Cynnydd o ran Datgomisiynu

Nododd MM gynnydd ardderchog ar draws y safle gyda nifer o gerrig milltir arbennig wedi'u cyflawni gydol y flwyddyn, yn cynnwys yn fras:

a) Cau'r ddwy storfa ddiogel uwchben lefel y ddaear ar ôl pecyn o waith helaeth i waredu gwastraff etifeddol a gwaredu neu ddiogelu unrhyw beryglon radiolegol neu asbestos.
b) Cwblhau adfer y Brif Gromgell Slwtsh, gyda'r tîm yn rheoli ffrwd wastraff anodd iawn heb niwed na digwyddiad. Bydd y safle nawr yn destun proses Lanhau ar ôl y Cyfnod Gweithredol cyn ei drosglwyddo ar gyfer gwaith tynnu peiriannau.
c) Mae Safle Gweddillion yr Elfen Tanwydd (FED) wedi mynd i gyfnod o gomisiynu gweithredol ac rydym wedi cynhyrchu naw pecyn gwastraff lefel canolradd (ILW) 3m3 o FED.
d) Gorffennwyd y cam brasnaddu Pyllau, ac rydym yn canolbwyntio nawr ar orffen y gwaith yn lonydd y pyllau, gyda holl fasgedi Gwagle Pyllau Gogledd

wedi'u tynnu a'u hallforio'n ddiogel i'w storio yn Safle Storio a Thrin Gweddillion Magnox.

e) Cwblhawyd y gwaith ar gryfhau Adeilad yr Adweithyddion heb unrhyw ddigwyddiadau sylweddol.

Yng nghyswllt y Canllawiau newydd ar Ofynion Rhyddhau Safleoedd Niwclear rhag Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol, mae perthynas waith adeiladol a chynhyrchiol wedi'i sefydlu gyda'r NDA, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Asiantaeth yr Amgylchedd a Pharc Cenedlaethol Eryri, gydag adborth cadarnhaol hyd yma gan bob parti.

Gweithlu

Disgwylir i niferoedd y gweithwyr leihau yn unol â gostyngiad sydd ar y gweill yng nghwmpas y gwaith. Darparodd MM adroddiad lefel uchel i aelodau ar ystadegau staffio fel a ganlyn: -

Ebrill 2017 -	445 staff (yr holl staff gan gynnwys y cwmni Trwydded Safle uniongyrchol, asiantaethau ac eraill)
Ebrill 2018 -	326
Mehefin 2018 -	268

Ailadroddodd MM fod ymdrech barhaus yn anelu at greu deialog agored rhwng rheolwyr a staff.

Fel rhan o gefnogi Rhaglen Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) Magnox mae'r holl staff a gweithwyr asiantaeth wedi mynychu gweithdai ymwybyddiaeth i helpu i wneud Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn weladwy a sicrhau eu bod yn cael eu deall yn y gweithle.

Mae Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl wedi cael eu penodi a nifer o Reolwyr wedi cael hyfforddiant i'w helpu i ganfod straen, meithrin gwytnwch a meddwl iach ar eu cyfer eu hunain a'u timau.

Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn parhau i sicrhau cyfnod pontio llyfn ym Medi 2019 pan fydd y Contract Sefydliad Corff Rhiant (PBO) rhwng Partneriaeth Cavendish Fluor a'r NDA yn dod i ben.

Yr amgylchedd a Diogelwch Radiolegol

Dywedodd AR, yn ystod y cyfnod olaf hwn, bod y safle wedi cynnal lefel y gollyngiadau i'r amgylchedd ar lefelau isel iawn, yn sylweddol is na'r terfynau blynyddol a ganiateir. Mae diogelu rhag ymbelydredd yn parhau o fewn y terfynau ar gyfer gollyngiadau.

Holodd y Cyng. M Williams ynghylch y dyddiad ar gyfer dymchwel a phwy sy'n gwneud y penderfyniad. Dywedodd MM bod y gwaith wedi'i gynllunio i ddechrau yn 2022, ond y bydd manylion penodol o ran amserlenni gwaith yn cael eu pennu pan fydd contractwr dymchwel wedi'i ddewis a'i gytuno. Nododd fod trafodaethau gyda'r holl bartïon yn mynd rhagddynt i gytuno ar y manylion a chwblhau'r cytundeb ac er mwyn helpu i ddeall beth sydd angen ei wneud yn y Cais Cynllunio gofynnol.

Gwnaeth y Cyng. Richards sylw nad oedd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle wedi derbyn Cynllun Busnes Drafft am rai blynyddoedd, gan nodi bod hon yn ddogfen ddefnyddiol. Dywedodd hefyd ei fod wedi cael ei hysbysu y tynnwyd arian o gyllideb Trawsfynydd – holodd am ddilysrwydd y datganiad hwn. Cadarnhaodd MM bod y cyllid gan yr NDA wedi bod yn is eleni nag yn y gorffennol ond yn unol â'r gwaith a

gynlluniwyd ar y safle. Eglurodd y gall gweithgarwch cost effeithiol ar un safle arwain at ryddhau arian i safle arall, ac weithiau fod blaenoriaethau'n newid a chyllid yn gallu cael ei ailgyfeirio. Yn yr un modd, os bydd gwaith blaenoriaeth uchel yn cael ei nodi yn Nhrawsfynydd yn y dyfodol, gall y rheolwyr wneud cais am gyllid ychwanegol i dalu am gostau o'r fath.

Yr oedd y Cyng. Ioan Thomas yn dymuno diolch i MM am yr ymweliadau safle yn gynharach yn y diwrnod a hefyd am ddarparu'r data proffil staffio.

6. Adroddiad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear – John McGough

Nid oedd cynrychiolydd o'r ONR yn bresennol; fodd bynnag, yr oedd adroddiad ysgrifenedig am y cyfnod 1.10.17 i 31.3.18 wedi cael ei rannu gyda'r papurau.

7. Adroddiad gan Cyfoeth Naturiol Cymru – Julia Frost

Nid oedd cynrychiolydd o Cyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol; fodd bynnag, cafodd adroddiad ysgrifenedig ar y cyd a baratowyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, ei ddosbarthu i holl aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle ac fe'i trafodwyd yn eitem 10 isod.

8. Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear – Jonathan Jenkin

Croesawyd Mr Jonathon Jenkin i'r cyfarfod a rhoddodd olwg gyffredinol ar ddiweddariad misol yr NDA a oedd eisoes wedi ei gylchredeg i'r aelodau. Cyfeiriodd yn benodol at Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid yr NDA a oedd i'w chynnal yn Berkeley, hen safle niwclear sydd erbyn hyn yn gartref i Goleg a Pharc Gwyddoniaeth De Caerloyw a Stroud, yn ystod y 10-11 Gorffennaf 2018.

Pwysleisiodd eto'r gobaith y bydd y ddogfen datgomisiynu'n cael ei chyflwyno i gyfarfod Bwrdd yr NDA ym mis Gorffennaf. Os bydd y ddogfen yn derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd yna bydd yn cael ei chyflwyno i'r Llywodraeth cyn mynd drwy broses ymgynghori lawn.

9. Diweddariad ar gynllun-economaidd gymdeithasol Magnox – Mair Jones

Rhoddodd Mair Jones gyflwyniad byr ar lwyddiannau'r cynllun economaidd-gymdeithasol. Nodwyd, yn 2017/18, y cafodd dros £739k ei ymrwymo i helpu 143 o sefydliadau ar draws y 12 safle Magnox. Yr oedd dros £140,000 (19%) o hyn mewn cymunedau o gwmpas safle Trawsfynydd. Dyma rai o'r grwpiau sydd wedi elwa o arian lefel Cymydog Da:
Blaenau Sovereigns – dyfarnwyd £1000, Cylch Meithrin Bethel – dyfarnwyd £315, Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch – dyfarnwyd £418; Llyfrgell Harlech – dyfarnwyd £2000

Un o'r ceisiadau trawsnewid mwy a gefnogwyd yn ddiweddar oedd y Bartneriaeth Awyr Agored – dyfarnwyd £30,000, Hwb Cymunedol Dyffryn Nantlle – dyfarnwyd £9,999; Prosiect STEM y Gogledd – dyfarnwyd £201,000.

Hefyd, cafodd Rhaglen Trawsnewid Trawsfynydd Cam 3 £465,500 o gyllid uniongyrchol gan NDA tua diwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn barhad o gam 2,

a dderbyniodd £350,000 o gyllid yn 2011/12 gan greu dwy swydd – Rheolwr yr Ardal Fenter a Swyddog yr Ardal Fenter, rhoi Cynllun Gweithredu'r Safle ar waith a gwneud rhagor o welliannau i Lyn Trawsfynydd, fel mynediad gwell ar gyfer llwybrau a beicwyr ac arwyddion a'r caffi i dwristiaid a greodd bump o swyddi anuniongyrchol. Mae Cam 3 yn rhaglen llawer mwy eang gyda'r cyfle i sicrhau buddsoddiadau mawr gwerth sawl miliwn yn Nhrawsfynydd gyda'r potensial i gael Adweithydd Modiwlar Bach (SMR) a Chanolfan Awyrofod Eryri gerllaw yn Llanbedr.

Mae porth cyllido 2018/19 bellach yn agored, gellir cael rhagor o wybodaeth ac mae modd gwneud ceisiadau ar-lein yn https://magnoxsocioeconomic.com

Yr oedd y Cadeirydd yn dymuno diolch yn ffurfiol i Mair Jones a Magnox Ltd am weinyddu a darparu'r cyllid gwerthfawr hwn i gefnogi prosiectau lleol a rhoddodd anogaeth i aelodau hyrwyddo'r gronfa yn eu hardaloedd eu hunain.

10. Adroddiad Asiantaeth yr Amgylchedd – Richard Clarke

Croesawyd Mr Richard Clarke i'r cyfarfod ac arweiniodd yr aelodau drwy'r adroddiad ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd a oedd eisoes wedi ei gylchredeg i'r aelodau. Tynnodd sylw penodol at y canlynol:-

a) Gollyngiadau ymbelydrol - yr oedd yr adroddiadau chwarterol a dderbyniwyd i gyd yn dangos bod Trawsfynydd yn parhau i fod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn y drwydded sylweddau ymbelydrol.

b) Cynhaliwyd Archwiliad ar Thema Rheoli Asedau gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar 5-6 Mai – adborth i'w dderbyn cyn bo hir

c) Nid oedd unrhyw Weithgaredd Gorfodi'r wedi'i gyflawni ers y cyfarfod diwethaf

d) Yr oedd trywydd GRR ffurfiol wedi cael ei gwblhau, ond mae gwaith yn parhau gyda Thrawsfynydd o ran cwblhau cyflwyniadau ffurfiol ar y cyd â'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, NDA, yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Eryri

e) Lythyr rhybuddio wedi'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017 ynghylch cam-anfon gwastraff pwll brasnaddu. Cynnydd da wedi'i wneud gan y gweithredwr a fydd yn cael ei gofnodi'n ffurfiol yn adroddiad arolwg y safle.

f) Nodwyd y bydd arolwg 'Arferion' Trawsfynydd yn cael ei gynnal yn gynnar ym mis Gorffennaf – Sion Richards a Richard Clarke fydd yn arwain ar hyn yn y gymuned leol.

g) Ailadroddwyd, o safbwynt Asiantaeth yr Amgylchedd, fod llawer o waith i'w wneud eto cyn bydd modd cwblhau Cais Cynllunio ffurfiol. Rhoddodd sicrwydd i'r aelodau bod llawer iawn o ddeialog gadarnhaol yn mynd ymlaen rhwng yr holl asiantaethau. Dywedodd hefyd mai'r amserlen arferol ar gyfer ymgynghoriadau oedd rhwng 6-8 wythnos.

Diolchwyd i Mr Clarke am ei gyflwyniad.

11. Unrhyw Fater Arall

Menter Eryri, Cyngor Gwynedd
Roedd Nia Bowden yn dymuno rhoi diweddariad i aelodau ar y canlynol:-

Trawsfynydd

- Ymdrechion yn parhau i lobio am ddatgomisiynu parhaus.
- Datblygu'r safle – nifer o bartïon wedi ymweld â'r safle a sylwadau cadarnhaol wedi'u derbyn yng nghyswllt lleoli adweithydd llai o ran maint
- Cais Twf – nifer o brosiectau wedi cael eu nodi i gael eu datblygu dros y 15 mlynedd nesaf

Llanbedr

- Arian wedi'i ganfod i adnewyddu'r safle a'r adeiladau, uwchraddio offer a gwella mynediad i'r safle – cynnydd yn araf; fodd bynnag, cyllid gan Ewrop wedi cael ei gadarnhau.
- Digwyddiad gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol i'w gynnal ar gyfer plant a phobl ifanc.

Cyfeiriodd y Cyng. M Williams at ddigwyddiad diweddar pryd y gwelwyd awyren (- Floatplane) ar y llyn. Nid oedd unrhyw un a oedd yn bresennol yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth ynghylch y digwyddiad hwn a chytunwyd y byddai A.Mc o Faentwrog a JJ o'r NDA yn ymchwilio ymhellach ac yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y grŵp hwn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chaeodd y cyfarfod am 3.10pm

12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – dydd Llun 3 Rhagfyr 2018